**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JMHSC/3318/25

Peter Fox AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

SeneddIechyd@senedd.cymru

15 Ionawr 2026

Annwyl Peter,

Diolch am rannu adroddiad y Pwyllgor yn dilyn ei ymchwiliad i wasanaethau offthalmoleg yng Nghymru.

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei waith. Rwyf wedi ystyried yr argymhellion yn ofalus ac rwy'n amgáu ymateb ysgrifenedig.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru

# Ymchwiliad i Wasanaethau Offthalmoleg yng Nghymru.

Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Tachwedd 2025)

15/01/2026

Ym mis Tachwedd 2025, cyflwynodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd ei adroddiad ar wasanaethau offthalmoleg yng Nghymru, gan nodi cyfres o argymhellion i gefnogi gwelliant parhaus y ddarpariaeth gofal llygaid. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i gydweithio â Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), a phartneriaid er mwyn darparu gwasanaethau gofal llygaid cynaliadwy o ansawdd uchel.

# Cynnwys

**Cyflwyniad** .......... **3**

**Ymateb i'r 17 o argymhellion** .......... **5**

Argymhellion 1 a 12 .......... 5

Argymhelliad 1 .......... 5

Argymhellion 12 .......... 5

Argymhelliad 2 .......... 6

Argymhelliad 3 .......... 8

Argymhelliad 4 .......... 8

Argymhelliad 5 .......... 10

Argymhelliad 6 .......... 10

Argymhelliad 7 .......... 11

Argymhelliad 8 a 9 .......... 12

Argymhelliad 10 .......... 13

Argymhelliad 11 .......... 13

Argymhellion 13, 14, 16 a 17 .......... 14

Argymhelliad 15 .......... 14

Datganiad i Gloi .......... 15

# Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu adroddiad y pwyllgor ar wasanaethau offthalmoleg yng Nghymru. Rydym yn cydnabod yr heriau ar draws y llwybr gofal llygaid, gan gynnwys galw cynyddol, pwysau ar y gweithlu, cyfyngiadau digidol ac o ran ystadau, a'r angen hanfodol i ddatblygu modelau gwasanaeth integredig.

Yn ystod 2025–26, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud i wella darpariaeth gofal llygaid, gan gynnwys buddsoddiad gwerth dros £29m i gefnogi 20,000 o driniaethau cataract ychwanegol. Mae'r ymrwymiad hwn yn sicrhau y bydd o leiaf 37,000 o driniaethau yn cael eu darparu erbyn mis Mawrth 2026, gyda dros 22,000 eisoes wedi'u cwblhau erbyn diwedd mis Tachwedd 2025.

Ochr yn ochr ag ehangu llawfeddygol, mae Llywodraeth Cymru wedi cryfhau gofal cymunedol drwy raglenni Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru, gan arwain at 90,000 a mwy o apwyntiadau optometreg ychwanegol yn 2024–25 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r wybodaeth reoli gyfredol yn dangos y bydd apwyntiadau cymunedol yn ehangu eto yn 2025-26.

Mae adroddiad y pwyllgor yn adlewyrchu'r heriau parhaus sy'n wynebu llwybrau gofal llygaid, gan gynnwys galw cynyddol gan gleifion, pwysau ar y gweithlu, a'r angen i foderneiddio ac am fodelau gwasanaeth integredig. Er bod y pwysau a'r heriau hyn yn cael eu cydnabod, nid ydynt yn unigryw i Gymru - mae holl wledydd y DU yn wynebu heriau tebyg.

Mae Cymru yn barod i gyflwyno dull gweithredu integredig, system gyfan, y cydnabyddir sy'n hanfodol er mwyn ymateb i'r heriau hyn a sicrhau canlyniadau gwell i bobl ledled Cymru.

Wrth fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad ac ymateb iddynt, mae angen egluro rolau gwahanol ond cyflenwol Llywodraeth Cymru a Pherfformiad a Gwelliant GIG Cymru wrth gyflawni'r disgwyliadau hyn:

- Mae Llywodraeth Cymru yn gosod polisi a blaenoriaethau iechyd cenedlaethol, yn cymeradwyo strategaethau clinigol cenedlaethol, ac yn sicrhau goruchwyliaeth a sicrwydd ar gyfer gwaith GIG Cymru yn erbyn polisi Llywodraeth Cymru i Weinidogion Cymru.
- Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru yw'r swyddogaeth gymorth genedlaethol sy'n rhoi polisïau ar waith, yn arwain perfformiad a gwelliant, ac yn gweithredu strategaethau clinigol cenedlaethol trwy strwythurau rhaglenni, megis y Rhwydwaith Gweithredu Clinigol ar gyfer Offthalmoleg).

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru i ailddiffinio llywodraethu, atebolrwydd a goruchwylio ledled y system iechyd. Disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2026, a bydd yn sicrhau bod strwythurau a pherthnasoedd yn gadarn, a bod darparu gwasanaethau gofal llygaid yn rhan hanfodol o'r dyluniad. Bydd sefydlu'r trefniadau llywodraethu cywir drwy Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru yn sicrhau goruchwyliaeth ac atebolrwydd priodol ar gyfer pob cynllun cenedlaethol, gan gynnwys y Strategaeth Glinigol Genedlaethol ar gyfer Offthalmoleg. Ym maes gofal llygaid, bydd hyn yn cynnwys y Rhwydwaith Gweithredu Clinigol ar gyfer

Offthalmoleg a Phwyllgor Gofal Llygaid Cymru, gan sicrhau dull system gyfan ac integredig o gyflwyno gwasanaethau.

# Ymateb i'r 17 o argymhellion

## Argymhellion 1 a 12

## Argymhelliad 1

Mae'r pwyllgor yn argymell y canlynol

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet, fel mater o frys, sefydlu bwrdd goruchwylio traws-sector pwrpasol ar gyfer offthalmoleg i fonitro'r broses o roi'r Strategaeth Glinigol Genedlaethol ar waith. Dylai'r bwrdd:

- gynnwys cynrychiolwyr o Goleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr, byrddau iechyd, AaGIC, Iechyd a Gofal Digidol Cymru, arweinwyr optometreg a grwpiau cleifion;
- bod yn gyfrifol am olrhain cynnydd gweithredu yn erbyn cerrig milltir sydd wedi'u diffinio'n glir; uwchgyfeirio risgiau cyflawni; ac adrodd yn gyhoeddus ar ganlyniadau;
- cael ei sefydlu cyn etholiad cyffredinol Cymru yn 2026.

## Argymhellion 12

Mae'r pwyllgor yn argymell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru a Perfformiad a Gwella GIG Cymru ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd ddangos eu bod yn:

- manteisio'n llawn ar yr ystâd offthalmoleg bresennol, gan gynnwys gweithredu gwelliannau sydd wedi llwyddo mewn mannau eraill a chyflwyno achosion busnes ar gyfer buddsoddiad cyfalaf lle bo'n briodol,
- datblygu a chynnal amserlen amnewid offer treigl, wedi'i llywio gan angen clinigol a'r galw am wasanaethau, er mwyn sicrhau uwchraddio amserol ac osgoi tarfu ar wasanaethau;
- gweithio gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) i archwilio cyfleoedd ar gyfer caffael canolog, olrhain asedau a rennir a chynllunio cyfalaf cydlynol.

Dylai fod yn ofynnol i fyrddau iechyd ysgrifennu at ein holynydd-bwyllgor ymhen deuddeg mis i adrodd ar gynnydd yn y meysydd hyn, gan gynnwys:

- cyflwr ac addasrwydd eu hystad offthalmoleg;
- gwaith uwchraddio offer sydd ar y gweill ac wedi'i gwblhau;
- unrhyw risg sy'n parhau i ddarparu gwasanaethau oherwydd cyfyngiadau'r ystâd neu offer.

**Ymateb:** Derbyn yn rhannol

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr angen am lywodraethu cadarn, traws-sector a rheolaeth effeithiol er mwyn rhoi'r Strategaeth Glinigol Genedlaethol ar gyfer Offthalmoleg ar waith. Hefyd, rydym yn derbyn y bydd y gwaith hwn yn cynnwys rheoli

ystadau ac offer. Fodd bynnag, nid sefydlu grŵp goruchwylio newydd ar wahân yw'r opsiwn gorau ar hyn o bryd tra bod strwythurau llywodraethu rhwng Llywodraeth Cymru a Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn cael eu hadolygu. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda Perfformiad a Gwella GIG Cymru i ailddiffinio trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a goruchwylio yn sgil penodi cyfarwyddwr rhaglen newydd.

Bydd canlyniad y gwaith hwn yn pennu'r strwythurau priodol er mwyn sicrhau bod pob polisi a strategaeth genedlaethol yn cael eu gweithredu yn llwyddiannus, gan gynnwys y strategaeth gofal llygaid, a bydd yn darparu goruchwyliaeth ar gyfer atebolrwydd ac uwchgyfeirio yn ôl yr angen.

Mae polisi Llywodraeth Cymru a'i gwaith craffu ar geisiadau cyfalaf yn disgwyl i fyrddau iechyd fanteisio'n llawn ar yr ystad bresennol, gweithredu gwelliannau y dangoswyd eu bod wedi llwyddo, a datblygu amserlenni amnewid offer treigl.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Perfformiad a Gwella GIG Cymru i gryfhau adnoddau cynllunio lleol a rhanbarthol a cheisiadau posibl am gyfalaf er mwyn sicrhau goruchwyliaeth a chysondeb cenedlaethol â blaenoriaethau strategaethau cenedlaethol. Bydd gofynion adrodd blynyddol yn erbyn y gofyniad hwn yn cael eu hamlinellu yn y trefniadau newydd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariadau i'r pwyllgor unwaith y bydd y trefniadau llywodraethu a goruchwylio newydd wedi'u hymwreiddio a'u bod yn gweithredu'n effeithiol. Mae'r dull gweithredu hwn yn sicrhau y bydd diweddariadau yn y dyfodol yn ystyrlon ac yn adlewyrchu'r strwythurau newydd, cadarn ar gyfer atebolrwydd a chyflawni.

## Argymhelliad 2

Mae'r pwyllgor yn argymell y canlynol

Ym mis Chwefror 2026, dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am y cynnydd o ran rhoi'r Strategaeth Glinigol Genedlaethol ar waith, gan gynnwys:

- manylion unrhyw gerrig milltir allweddol y cytunwyd arnynt, a'r cynnydd o ran eu gweithredu (gan gynnwys pwy sy'n gyfrifol am eu cyflawni);
- unrhyw risgiau a nodwyd o ran cyflawni'r cerrig milltir allweddol hyn.

**Ymateb:** Derbyn yn rhannol

Mae'r Strategaeth Glinigol Genedlaethol ar gyfer Offthalmoleg yn cael ei rhoi ar waith drwy'r Rhwydwaith Gweithredu Clinigol, gyda chymorth ystod o is-grwpiau gan gynnwys grwpiau cyfeirio clinigol sy'n canolbwyntio ar is-arbenigedd, cyfathrebu â chleifion a phrofiad cleifion, a gweithio amlddisgyblaethol. Mae cynnydd hyd yn hyn yn cynnwys y canlynol:

- Mae sawl is-grŵp wedi'u sefydlu o dan y Rhwydwaith Gweithredu Clinigol, gan gynnwys grwpiau cyfeirio clinigol sy'n canolbwyntio ar is-arbenigedd, cyfathrebu â chleifion a phrofiad cleifion, a gweithio anfeddygol/amlddisgyblaethol.
- Mae cyfarfod pwrpasol ar gyfer ymgynghorwyr yn unig wedi'i sefydlu.
- Mae pecynnau is-arbenigedd wedi'u datblygu neu ar fin cael eu cwblhau:

  - **Cataract:** Cyhoeddwyd 'Immediately Sequential Bilateral Cataract Surgery Standard Operating Procedure'; mae canllawiau atgyfeirio yn barod i'w cyhoeddi; ar hyn o bryd mae'r gwaith yn canolbwyntio ar godio ac asesu cyn llawdriniaeth.
  - **Retina Meddygol:** mae'r gwaith hwn wrthi'n cael ei ddatblygu.
  - **Glawcoma:** mae'r gwaith hwn wrthi'n cael ei ddatblygu.
- Safoni Hyfforddiant Nyrsys Offthalmoleg (nyrsys cofrestredig): datblygwyd fframwaith hyfforddiant Cymru Gyfan a chymwyseddau craidd mewn partneriaeth ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC); mae achos busnes ar gyfer cyllid wrthi'n cael ei ddatblygu.
- Mae adolygiad o'r Fframwaith Optimeiddio Offthalmoleg ar gyfer fersiwn 2 ar y gweill, ac mae'n canolbwyntio ar nifer fach o feysydd/ysgogiadau allweddol a chymorth i fyrddau iechyd.
- Adolygiad Cenedlaethol o'r Gweithlu: wedi'i gwblhau, ac mae adroddiad yn nodi canfyddiadau allweddol a sawl argymhelliad ar gyfer byrddau iechyd ar lefel leol a rhanbarthol; trafodwyd y mater hwn gan Grŵp Strategol a Gweithredol Gofal a Gynlluniwyd (PCSOG) ym mis Rhagfyr a gan y Bwrdd Gofal a Gynlluniwyd ym mis Ionawr 2026.
- Manyleb Gwasanaeth Clinig Diagnostig: mae manyleb y gwasanaeth wedi'i chwblhau gan gynnwys costau, gofynion staffio a dogfennaeth allweddol ategol; wedi'i hadolygu gan Lywodraeth Cymru, ei thrafod a'i rhannu yn y Rhwydwaith Gweithredu Clinigol, a bydd yn cael ei thrafod yn PCSOG ym mis Rhagfyr a'r Bwrdd Gofal a Gynlluniwyd ym mis Ionawr 2026.
- Mae disgrifiad swydd Technegydd Offthalmig Band 3 Cymru Gyfan safonedig wedi'i ddatblygu er mwyn gwella safoni ac eglurder y rôl.
- Mae llythyr apwyntiadau cleifion Cymru Gyfan safonedig wedi'i ddatblygu sy'n bodloni arferion gorau yr RNIB ar gyfer gwybodaeth i gleifion.
- Mae nifer o weithdrefnau llawdrin safonol anfeddygol Cymru gyfan safonedig wedi'u datblygu.
- Mae byrddau iechyd yn cael eu hannog i weithredu trefn rhestru uniongyrchol.
- Cynorthwyo byrddau iechyd i restru saith cataract fesul rhestr ar gyfer y rhan fwyaf o restrau.
- Cafodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg gymorth i ganoli ei wasanaeth cataractau yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae Llywodraeth Cymru yn cadw cyfrifoldebau goruchwylio a sicrwydd. Bydd y dulliau o adrodd cynnydd, risgiau a cherrig milltir i Lywodraeth Cymru a'r pwyllgor yn cael eu cytuno drwy'r strwythurau llywodraethu newydd. Bydd diweddariadau yn cael eu darparu unwaith y bydd y trefniadau newydd wedi'u hymwreiddio.

## Argymhelliad 3

Mae'r pwyllgor yn argymell y canlynol

Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i raglen fuddsoddi benodol ar gyfer gwasanaethau offthalmoleg eilaidd sy'n adlewyrchu graddfa a chynaliadwyedd y buddsoddiad mewn gwasanaethau optometreg gofal sylfaenol. Dylai'r rhaglen hon gwmpasu gwelliannau i'r ystâd ac i hygyrchedd, cylchoedd amnewid offer a mentrau i ehangu a chadw'r gweithlu.

**Ymateb:** Derbyn yn rhannol

Mae cyllideb 2026–27 (gan gynnwys dyraniadau offthalmoleg gofal eilaidd ac optometreg gofal sylfaenol) wedi'i chytuno trwy graffu sefydledig. Bydd trefniadau cyllideb yn y dyfodol yn cael eu penderfynu gan y llywodraeth nesaf o fis Mai 2026 ymlaen.

Mae craffu ariannol yn rhan o rôl a swyddogaethau Perfformiad a Gwella GIG Cymru, a bydd hynny'n parhau yn y dyfodol. Bydd strwythurau atebolrwydd Llywodraeth Cymru yn darparu goruchwyliaeth.

Cyn ymrwymo i unrhyw fuddsoddiad newydd, byddai'n ddoeth cynnal asesiad sylfaenol o'r buddsoddiad presennol. Gofynnir i Perfformiad a Gwella GIG Cymru gynnal asesiad sylfaenol fesul bwrdd iechyd a rhanbarth, o wariant ac adnoddau gofal llygaid presennol (gwasanaethau cymunedol ac ysbytai) drwy ei swyddogaeth cyllid a chomisiynu, er mwyn nodi unrhyw fylchau ac amrywiadau. Defnyddir hyn i lywio a chefnogi cyfleoedd cynllunio a buddsoddi yn y dyfodol oddi mewn i'r trefniadau newydd.

Bydd angen ystyried unrhyw ymrwymiadau buddsoddi newydd drwy'r strwythurau y cytunwyd arnynt a sicrhau cysondeb ag anghenion y boblogaeth a blaenoriaethau gwasanaethau.

## Argymhelliad 4

Mae'r pwyllgor yn argymell y canlynol

Ym mis Chwefror 2026, dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd yn erbyn targed Llywodraeth Cymru o greu 30,000 o apwyntiadau gofal llygaid sylfaenol fesul cylch blwyddyn lawn a dangos sut y mae diwygiadau gofal eilaidd yn cael eu halinio â llwyddiant Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru.

**Ymateb:** Derbyn

Roedd cyflwyno'r contract optometreg newydd ym mis Hydref 2023 yn garreg filltir arwyddocaol yn y gwaith o drawsnewid gwasanaethau gofal llygaid yng Nghymru. Prif nod y contract yw lleihau'r baich ar wasanaethau gofal llygaid ysbytai sydd o dan bwysau mawr trwy sicrhau bod modd rheoli mwy o bobl yn ddiogel ac yn effeithiol mewn lleoliadau optometreg gofal sylfaenol. Mae hyn yn cyd-fynd â'n strategaeth gyffredinol i symud mwy o wasanaethau gofal i'r gymuned, yn nes at gartrefi pobl.

Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud trwy uwchsgilio'r gweithlu gofal sylfaenol, yn enwedig mewn meysydd sy'n trin llawer o gleifion, megis retina meddygol, glawcoma, a gofal llygaid brys acíwt.

Mae'r broses o gyflwyno llwybrau Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru 1-5 fesul cam wedi hwyluso newid gofal i'r gymuned yn raddol. Mae llwybrau Gwasanaethau

Offthalmig Cyffredinol Cymru 4 a 5 yn benodol yn rhoi cymwysterau ychwanegol i optometryddion er mwyn rheoli a thrin pobl a fyddai wedi gorfod cael atgyfeiriad at ofal eilaidd yn y gorffennol. Mae'r dull gweithredu hwn yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i ddarparu gofal yn nes at y cartref, gwella mynediad, a gwneud y defnydd gorau o'r gweithlu sydd ar gael.

Mae effaith y diwygiadau hyn yn amlwg yn y data ystadegol swyddogol ar gyfer 2023-24 a 2024-25, sy'n dangos y lefelau uchaf erioed o weithgarwch gofal llygaid sylfaenol a chynnydd sylweddol yn yr apwyntiadau newydd sydd wedi'u creu.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gweithgarwch yn ôl llwybr Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS):

| Llwybr WGOS | Gweithgarwch 2023-24 | Gweithgarwch 2024-25 | Apwyntiadau ychwanegol a gafodd eu creu yn 2024-25 |
|---|---|---|---|
| WGOS 1 | 841,446 | 865,704 | 24,258 |
| WGOS 2 | 243,445 | 280,256 | 36,811 |
| WGOS 3 | 8,393 | 8,795 | 402 |
| WGOS 4 | 0 | 2,520 | 2,520 |
| WGOS 5 | 0 | 26,304 | 26,304 |
| **Cyfanswm** | | | **90,295** |

Mae'r broses o ddarparu llwybrau WGOS 4 a 5 yn dibynnu ar ddau ffactor allweddol:

- Sicrhau bod nifer ddigonol o optometryddion cymunedol wedi cwblhau'r hyfforddiant a'r cymwysterau ychwanegol angenrheidiol.
- Nodi a throsglwyddo cleifion priodol o lwybrau dilynol mewn ysbytai i ofal cymunedol, yn unol â meini prawf clinigol a safonau diogelwch y cytunwyd arnynt.

Mae'n bwysig nodi bod data 2024-25 yn adlewyrchu camau cynnar y rhaglen drawsnewid hon, a bod rhagor o waith i integreiddio ac ehangu llwybrau yn parhau ym mhob bwrdd iechyd.

Nid oedd pob bwrdd iechyd wedi adrodd ar flwyddyn lawn o weithgarwch WGOS 4 a 5 yn 2024-25 oherwydd y cyflwyniad graddol a'r gofynion i ddatblygu'r gweithlu.

Mae cysylltiad agos rhwng diwygiadau offthalmoleg gofal eilaidd a llwyddiant WGOS, ac mae byrddau iechyd yn datblygu ac yn gweithredu cynlluniau trosglwyddo er mwyn nodi cleifion sy'n addas i'w trosglwyddo'n ddiogel i gael eu monitro a'u trin ar lefel gymunedol. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu monitro drwy Bwyllgor Gofal Llygaid Cymru a byddant yn cael eu hadolygu fel rhan o swyddogaethau Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru er mwyn sicrhau cysondeb a chynnydd parhaus.

Caiff ystadegau swyddogol eu hadrodd bob blwyddyn, a disgwylir i ddata ar gyfer 2025–26 gael ei gyhoeddi yn ystod haf 2026.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddarparu adroddiadau tryloyw a sicrhau gwelliant parhaus, gan sicrhau bod manteision y diwygiadau hyn yn cael eu gwireddu ar gyfer cleifion ledled Cymru.

## Argymhelliad 5

Mae'r pwyllgor yn argymell y canlynol

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymrwymo i sicrhau bod data ar restrau aros ar gyfer offthalmoleg yn cael ei gasglu ar lefel is-arbenigedd er mwyn llywio'r broses o gynllunio gwasanaethau effeithiol, helpu i ddyrannu adnoddau yn fwy doeth a helpu i leihau niwed i gleifion.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r angen am ddata is-arbenigedd manylach er mwyn llywio gwaith cynllunio, lleihau niwed, a thargedu capasiti. Dylai gwaith cenedlaethol (drwy Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru) safoni is-godau is-arbenigedd a sicrhau gwaith casglu ac adrodd cyson ar draws y byrddau iechyd. Dylai Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru fod yn gyfrifol am y gwaith gweithredu a monitro.

Dechreuodd adroddiadau rhanbarthol ar gataractau ar gyfer Rhanbarth y De-ddwyrain ym mis Medi 2025, ac mae data rhestrau aros ar gyfer y gwasanaeth contract rhanbarthol wedi'i wahanu o restrau aros y tri bwrdd iechyd perthnasol. Mae hyn yn golygu bod modd asesu gwaith rhanbarthol ar wahân i drefniadau atebolrwydd byrddau iechyd unigol.

## Argymhelliad 6

Mae'r pwyllgor yn argymell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru a GIG Cymru sicrhau bod profiad cleifion a chymorth i gleifion wedi'u hymwreiddio ar hyd y llwybr gofal offthalmoleg. Dylai hyn gynnwys:

- gweithredu'r llwybr cymorth gofal llygaid yn llawn, gan sicrhau bod cleifion yn derbyn gwybodaeth a chymorth emosiynol amserol ym mhob cam o'u taith gofal;
- adolygiad o fanteision tebygol cynnwys swyddogion cyswllt gofal llygaid wrth gynllunio'r gweithlu er mwyn sicrhau cyllid cynaliadwy a darpariaeth gyson ym mhob bwrdd iechyd;
- cryfhau rôl llais y claf wrth ddylunio, monitro a gwerthuso gwasanaethau, gan gynnwys cynrychiolaeth ar fyrddau gofal llygaid rhanbarthol a rhwydweithiau clinigol;
- sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau, yn enwedig ar gyfer cleifion mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd heb wasanaethau digonol.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod profiad cleifion a chymorth i gleifion yn ganolog i'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau gofal llygaid. Trwy weithredu'r llwybr cymorth gofal llygaid yn llawn, bydd modd sicrhau bod pobl yn derbyn gwybodaeth amserol, cefnogaeth emosiynol a chymorth ymarferol yn ystod pob cam o'u taith gofal.

Mae polisi profiad cleifion Llywodraeth Cymru yn disgwyl y dylai unigolion a gofalwyr gyflawni rôl weithredol wrth roi unrhyw gynllun clinigol cenedlaethol ar waith, gan sicrhau bod llais y claf wedi'i ymwreiddio wrth gynllunio, monitro a gwerthuso gwasanaethau.

Byddwn yn sicrhau bod llais y claf/gofalwr yn cyflawni rôl weithredol yn y broses weithredu newydd.

Cynhelir asesiad sylfaenol o wasanaethau i gleifion a gwybodaeth am gleifion er mwyn nodi arferion da a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau, gan ganolbwyntio'n benodol ar fynediad cyfartal ar gyfer cleifion mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd heb wasanaethau digonol. Dylid adolygu rôl swyddogion cyswllt gofal llygaid hefyd fel rhan o waith cynllunio'r gweithlu er mwyn sicrhau cyllid cynaliadwy a darpariaeth gyson ym mhob bwrdd iechyd.

Trwy'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gyda Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod goruchwyliaeth ac atebolrwydd priodol ar waith, a bydd yn monitro profiad cleifion a chymorth i gleifion ar draws y llwybr gofal llygaid fel un o'r prif Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y byddwn yn cytuno arnynt fel rhan o'r strwythur atebolrwydd newydd.

## Argymhelliad 7

Mae'r pwyllgor yn argymell y canlynol

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet, erbyn diwedd mis Chwefror 2026, roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am gynnydd ar ddatblygu a gweithredu protocol safonol ar gyfer adrodd am niwed ym mhob bwrdd iechyd, gan gynnwys manylion unrhyw dargedau a cherrig milltir. Fel rhan o'r gwaith hwn, dylai:

- gadarnhau y bydd hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu i staff y byrddau iechyd er mwyn sicrhau bod digwyddiadau niwed yn cael eu cofnodi'n gywir, a
- darparu manylion y trefniadau monitro y mae'n bwriadu eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau, ar ôl ei weithredu, bod y protocol yn cael ei ddilyn gan bob bwrdd iechyd.

**Ymateb:** Derbyn yn rhannol

Mae protocol safonol ar gyfer adrodd am niwed ar waith, ac mae'n cyd-fynd â gofynion y GIG a diffiniadau Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr o niwed ym maes offthalmoleg.

Mae niwed oherwydd oedi wedi'i ddiffinio'n glir, ac mae adroddiadau yn cael eu rheoli drwy'r broses *"Gweithio i Wella"* gan ddefnyddio'r system Datix. Mae digwyddiadau difrifol yn cael eu hadrodd i Lywodraeth Cymru.

O fis Ebrill 2026 ymlaen, *"Gwrando ar Bobl"* fydd teitl newydd proses cwynion a gwneud iawn ddiwygiedig y GIG, a'r prif adnodd adrodd a chofnodi fydd system Rheoli Risgiau Cymru.

Mae Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru yn datblygu hyfforddiant ar gyfer y broses newydd, a bydd cydymffurfiaeth yn cael ei monitro trwy adroddiadau blynyddol a chyfarfodydd Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig. Mae'r Rhwydwaith Gweithredu

Clinigol ar gyfer Offthalmoleg yn parhau i hyrwyddo prosesau cadarn ar gyfer adrodd am niwed a dysgu gwersi ledled y sector.

## Argymhelliad 8 a 9

Mae'r pwyllgor yn argymell y canlynol

Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sy'n cael ei wneud ar gyflwyno system ddigidol OpenEyes yn erbyn targed mis Mawrth 2026. Yn benodol, dylai'r wybodaeth hon gynnwys manylion am:

- y byrddau iechyd lle mae'r system wedi'i gweithredu'n llawn ar draws yr holl is-arbenigeddau.
- y byrddau iechyd lle mae gwaith i weithredu'r system ar y gweill ond heb ei gwblhau (a manylion yr is-arbenigeddau sydd wedi'u cwblhau a'r rhai sy'n weddill), ac
- y byrddau iechyd lle nad yw' gwaith i weithredu'r system wedi dechrau eto.

A

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet wneud datganiad llafar ym mis Mawrth 2026 ynglŷn â gweithredu system ddigidol OpenEyes. Dylai'r datganiad hwn:

- gadarnhau yn glir a yw dyddiad cau mis Mawrth 2026 wedi'i fodloni ac a yw cofnod electronig am gleifion digidol OpenEyes wedi'i weithredu'n llawn ym mhob bwrdd iechyd ac is-arbenigedd, yn unol â tharged Llywodraeth Cymru;
- rhoi esboniad llawn am unrhyw oedi wrth gyrraedd y targed hwn, gan gynnwys amserlenni diwygiedig a chamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag achosion o beidio â gweithredu'r system, a chynnwys dadansoddiad gweithredu yn ôl bwrdd iechyd ac is-arbenigedd.
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ar gyflwyno'r system electronig ar gyfer atgyfeirio cleifion ym mhob bwrdd iechyd.

**Ymateb:** Derbyn yn rhannol

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol trawsnewid digidol er mwyn cefnogi gofal llygaid integredig, effeithlon a diogel.

Mae'r Rhaglen Gofal Llygaid Digidol yn cael ei rheoli gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ac mae'n symud tuag at gyflwyno system cofnodion cleifion electronig OpenEyes a system atgyfeirio electronig Opera yn llawn erbyn mis Mawrth 2026. Bydd hyn yn gwella diogelwch cleifion ac yn sicrhau bod modd rhannu gwybodaeth glinigol a delweddau digidol yn ddi-dor rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd.

O ystyried yr amserlen uchelgeisiol a graddfa'r newid sydd ei angen, bydd cynnydd yn cael ei adrodd yn ysgrifenedig i'r pwyllgor ym mis Mawrth 2026, gan fanylu ar statws gweithredu fesul bwrdd iechyd ac is-arbenigedd. Cyhoeddir datganiad ysgrifenedig hefyd.

## Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol

Rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn gryfach wrth gyfarwyddo darpariaeth ranbarthol gwasanaethau offthalmoleg yng Nghymru, fel y nodir yn y Strategaeth Glinigol Genedlaethol. Rhaid iddi:

- ddatblygu a chyhoeddi set o ddisgwyliadau ar gyfer gweithredu'r model rhanbarthol y darperir ar ei gyfer yn y strategaeth genedlaethol, gyda cherrig milltir a thargedau wedi'u diffinio i olrhain cynnydd o ran cyflawni;
- ei gwneud yn ofynnol i dargedau a chynlluniau sy'n gysylltiedig ag offthalmoleg gael eu cyflawni'n rhanbarthol;
- sicrhau bod y trefniadau llywodraethiant a seilwaith angenrheidiol yn cael eu rhoi ar waith i ategu model cyflawni rhanbarthol cynaliadwy ar gyfer gofal llygaid eilaidd yng Nghymru;
- ymrwymo i raglen fuddsoddi amlflwyddyn wedi'i chlustnodi ar gyfer gofal eilaidd sy'n cyd-fynd â maint ac uchelgais y cyllid rheolaidd sydd eisoes wedi'i ddarparu i ddiwygio optometreg gofal sylfaenol. Dylai'r buddsoddiad hwn gefnogi datblygiad model gofal llygaid rhanbarthol cynaliadwy, gan gynnwys uwchraddio'r ystâd, amnewid offer ac ehangu a chadw'r gweithlu, fel y nodir yn y Strategaeth Glinigol Genedlaethol ar gyfer Offthalmoleg.

**Ymateb:** Derbyn yn rhannol

Mae gweithio rhanbarthol yn flaenoriaeth, a nodir hyn yn Ein rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru (Cynllun adfer gofal a gynlluniwyd mis Ebrill 2022). Atgyfnerthir hyn gan ganllawiau cynllunio cenedlaethol. Mae'n elfen allweddol o'r Strategaeth Glinigol Genedlaethol ac fe'i cymeradwyir gan y rhaglenni cenedlaethol a'r rhwydweithiau clinigol cenedlaethol.

Mae trefniadau llywodraethu rhanbarthol ar waith ar gyfer rhanbarthau'r De-orllewin a'r De-ddwyrain, ac mae cydbwyllgorau wedi'u sefydlu i oruchwylio'r gwaith o integreiddio a gwella gwasanaethau. Un o'r meysydd cyntaf y bydd y pwyllgorau rhanbarthol hyn yn canolbwyntio arnynt yw gofal llygaid.

Mae ffrydiau gwaith rhanbarthol yn casglu data sylfaenol ar gyllid, y gweithlu, galw a seilwaith er mwyn llywio'r broses o ddatblygu gwasanaethau gofal llygaid rhanbarthol integredig. Bydd y dull gweithredu hwn yn helpu i ddarparu gofal cynaliadwy o ansawdd uchel ac yn sicrhau bod modd defnyddio adnoddau yn fwy effeithiol ar draws ffiniau byrddau iechyd.

Mewn ymateb i gynllunio blynyddol, disgwylir i'r byrddau rhanbarthol ddatblygu a chymeradwyo modelau gwasanaeth gofal llygaid rhanbarthol yn y dyfodol.

## Argymhelliad 11

Mae'r pwyllgor yn argymell y canlynol

Mewn ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi'r trefniadau sydd ar waith i Lywodraeth Cymru oruchwylio cynnydd y byrddau gofal llygaid rhanbarthol wrth

weithredu’r Strategaeth Glinigol Genedlaethol, gan gynnwys manylion unrhyw ofynion adrodd rheolaidd. Dylai hefyd ymrwymo i gyhoeddi manylion cynnydd y byrddau rhanbarthol hyn.

**Ymateb:** Derbyn yn rhannol

Bydd trefniadau adrodd ar gyfer darparu gofal llygaid rhanbarthol yn cael eu pennu drwy'r strwythurau llywodraethu newydd gyda Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gyhoeddi cynnydd rhanbarthol yn dryloyw (gan gynnwys eitemau fel monitro rhestrau aros rhanbarthol ar wahân ar gyfer cataractau os yn berthnasol).

## Argymhellion 13, 14, 16 a 17

**Noder:**
Mae argymhellion 13, 14, 16, a 17 wedi'u cyfeirio'n benodol at AaGIC. Felly, mae'r argymhellion hyn y tu allan i gylch gwaith uniongyrchol Llywodraeth Cymru. AaGIC sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu diweddariadau ac ymatebion i faterion sy'n ymwneud â hyfforddiant ym maes offthalmoleg, cynllunio'r gweithlu, a strategaethau ar gyfer gweithlu trawsbroffesiynol.

## Argymhelliad 15

Mae'r pwyllgor yn argymell y canlynol

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymrwymo i ddarparu cyllid ar gyfer lleoedd hyfforddiant arbenigol ychwanegol ym maes offthalmoleg a nodwyd gan AaGIC yn ei gynllun addysg a hyfforddiant blynyddol, gan sicrhau eu bod yn gynaliadwy ac yn cyd-fynd â maint y buddsoddiad a wnaed eisoes mewn optometreg gofal sylfaenol.

**Ymateb:** Derbyn yn rhannol

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd datblygu gweithlu cynaliadwy ym maes offthalmoleg a'r angen am fuddsoddiad parhaus mewn hyfforddiant arbenigol. Mae'r cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu'r gweithlu yn cael ei bennu trwy'r Strategaeth Glinigol Genedlaethol ar gyfer Offthalmoleg. Mae Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru yn gyfrifol am oruchwylio a chynorthwyo'r broses weithredu mewn partneriaeth ag AaGIC.

Mae'r berthynas gydweithredol rhwng Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru ac AaGIC yn ganolog i gyflawni gwelliant parhaus a sicrhau bod gwaith i gynllunio'r gweithlu yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol ac anghenion y gwasanaeth. Mae argymhellion AaGIC ar gyfer ehangu lleoedd hyfforddi offthalmoleg, sydd wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Addysg a Hyfforddiant blynyddol, yn cael eu hystyried o fewn y fframwaith gweithredu ehangach dan arweiniad Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru a'r Rhwydwaith Gweithredu Clinigol ar gyfer Offthalmoleg.

Yn unol â chanlyniadau'r uwchgynhadledd Weinidogol ar gyfer offthalmoleg (a gynhaliwyd ym mis Hydref 2024) ac adroddiad yr uwchgynhadledd Weinidogol a gyhoeddwyd, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r GIG, drwy Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru, fwrw ymlaen â'r argymhellion ar gyfer datblygu'r gweithlu mewn cydweithrediad agos ag AaGIC. Mae'r dull gweithredu hwn yn sicrhau bod y broses o ehangu lleoedd hyfforddi yn seiliedig ar dystiolaeth, yn gynaliadwy, ac yn cyd-fynd â'r

dyheadau a nodir yn y Strategaeth Glinigol Genedlaethol a phwyslais yr uwchgynhadledd Weinidogol ar weithio mewn partneriaeth.

## Datganiad i Gloi

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i weithio gyda Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru, AaGIC, byrddau iechyd, Iechyd a Gofal Digidol Cymru, cyrff proffesiynol, a grwpiau cleifion i ddarparu gofal llygaid diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar y claf. Byddwn yn rhoi diweddariad i'r pwyllgor unwaith y bydd y trefniadau llywodraethu a goruchwylio newydd wedi'u sefydlu, a byddwn yn ymgorffori trefniant adrodd parhaus fel rhan o atebolrwydd a swyddogaethau Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru.